Polisi Cyfryngau Cymdeithasol
Tachwedd 2017

CYNNWYS

1. Cyflwyniad a Chwmpas
2. Nodau S4C
3. Strwythur Cyfryngau Cymdeithasol S4C
4. Gweithdrefn Gymeradwyo ar gyfer Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol
5. Rheolau Allweddol S4C
6. Safonau Cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol
7. Safoni
8. Diogelu Plant
9. Diogelwch
10. Cau Cyfrifon
11. Cyfrifon Personol
12. Cyfeiriadau at y Cyfryngau Cymdeithasol
13. Manylion Cyswllt

Atodiad 1
Atodiad 2

1. Cyflwyniad a Chwmpas

1.1 Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi datblygu cymaint dros y blynyddoedd diwethaf fel bod ganddynt bellach rôl flaenllaw i'w chwarae mewn bywyd bob dydd. Mae cynnydd o'r fath wedi arwain yn naturiol at fwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan S4C a'r sector cynhyrchu annibynnol fel ffordd o gysylltu â chynulleidfa S4C.

1.2 Mae S4C yn awyddus i ddatblygu ei llwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel y byddant yn dod yn ddull allweddol o ddosbarthu amrywiaeth eang o gynnwys cynhwysfawr, o ansawdd uchel, gyda buddiannau cynulleidfa S4C yn ganolog.

1.3 Mae'r polisi hwn yn rhoi canllawiau i'r sector cynhyrchu annibynnol ar ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig â Rhaglenni S4C.

1.4 Mae'r cyfryngau cymdeithasol fel y cyfeirir atynt yn y polisi hwn yn golygu holl lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, fel Twitter, Facebook, Instagram, YouTube, Snapchat, blogiau a gwefannau ac unrhyw lwyfannau eraill o natur debyg a grëir o bryd i'w gilydd, gan gynnwys blogiau ("Cyfryngau Cymdeithasol").

1.5 Mae'n rhaid i gynhyrchwyr, gan gynnwys eu staff perthnasol ("Cynhyrchwyr"), sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r ddogfen hon yn ei chyfanrwydd. Os bydd gan Gynhyrchwyr unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C (y mae ei fanylion i'w gweld yn adran 13 y polisi hwn).

1.6 Sylwch, ni ddylid darllen y polisi hwn ar ei ben ei hun a dylid ei ystyried ochr yn ochr â pholisïau eraill S4C, sydd i'w gweld ar wefan cynhyrchu S4C, http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/ ("Gwefan Cynhyrchu S4C") gan gynnwys y Crynodeb o Ganllaw Cyfryngau Cymdeithasol (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd).

1.7 Caiff y polisi hwn ei adolygu'n rheolaidd. I sicrhau bod Cynhyrchwyr yn defnyddio'r polisi diweddaraf, ewch i Wefan Cynhyrchu S4C.

2. Nodau S4C

2.1 Dylai'r Cyfryngau Cymdeithasol a ddefnyddir yn gysylltiedig â rhaglenni S4C gynorthwyo S4C i: i) apelio at gynulleidfa eang i'r sianel, ii) cryfhau perthynas S4C â'i chynulleidfa, a iii) chynyddu ffigurau gwylio'r sianel. Mae S4C eisiau datblygu ei safle yn y byd digidol trwy ddefnyddio dulliau creadigol o ddosbarthu cynnwys a chysylltu â'i chynulleidfa.

2.2 Er mwyn cyflawni'r nodau ym mharagraff 2.1 uchod, bydd S4C yn ymdrechu i sicrhau bod cynnwys a ryddheir ar ei llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol o safon uchel, yn feddylgar ac yn ategu blaenoriaethau darlledu S4C, a bod deunydd o'r fath a chysylltiad felly â'i chynulleidfa yn cael eu cyflawni mewn modd cyfrifol a chadarnhaol.

3. Strwythur Cyfryngau Cymdeithasol S4C

3.1 Ni waeth am gymal 3.5 isod, mae S4C yn dymuno canolbwyntio ar ei phrif gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol a datblygu ei dilynwyr o fewn y cyfrifon hynny yn hytrach na theneuo'i chynulleidfa, gyda'r gynulleidfa wedi lledaenu ar draws casgliad mawr o gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol. Trwy ganolbwyntio ar nifer fach o gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol, gall S4C rannu negeseuon a chynnwys gyda chynulleidfa ehangach.

3.2 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae S4C yn bwriadu i fwyafrif ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol sydd ynghlwm wrth Raglenni S4C gael eu cynnal trwy gyfrwng cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol S4C a bennir gan S4C o bryd i'w gilydd.

3.3 Bydd Cynhyrchwyr yn cynnal trafodaeth ymlaen llaw gydag S4C ar natur fwriadedig eu hymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol a'r cynnwys maent yn bwriadu'i ryddhau trwy gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol S4C. Dylid nodi hyn yn glir yn y Brîff Golygyddol a Busnes – gweler paragraff 4.2 isod.

3.4 Bydd Cynhyrchwyr yn cytuno ar strategaeth ar gyfer ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol gydag S4C ymlaen llaw. Yn nodweddiadol, bydd strategaeth o'r fath yn cynnwys un o'r senarios canlynol:

a) Bydd hi'n ofynnol i Gynhyrchwyr gyflwyno deunydd ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol i S4C, a bydd S4C yn rhyddhau'r deunydd trwy ei chyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol fel yr ystyria'n briodol i gynulleidfa darged Rhaglen S4C;

b) Bydd S4C yn sefydlu tudalen yn gysylltiedig â'r cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol y mae S4C yn ei ystyried yn fwyaf priodol ar gyfer yr ymgyrch fwriadedig ar y Cyfryngau Cymdeithasol a bydd yn rhoi manylion am y ffordd o ddarparu cynnwys trwy'r llwyfan hwnnw i'r Cynhyrchwyr, gan alluogi cynnwys i gael ei ryddhau yn unol â'r strategaeth gytunedig ar gyfer yr ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol a thelerau ac amodau llwyfan y Cyfryngau Cymdeithasol; neu

c) Bydd S4C yn rhoi manylion i Gynhyrchwyr am y ffordd o ddarparu cynnwys ar gyfrif Cyfryngau Cymdeithasol presennol S4C, gan alluogi cynnwys i gael ei ryddhau yn unol â'r strategaeth a'r amserlen y cytunwyd arnynt gydag S4C a thelerau ac amodau llwyfan y Cyfryngau Cymdeithasol.

3.5 Gall fod achlysuron pan fydd S4C o'r farn bod gwyro o'r strwythurau uchod ar gyfer ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â'r polisi hwn yn fwy cyffredinol, yn briodol. S4C yn unig fydd â hawl i benderfynu ar unrhyw wyriadau a bydd unrhyw ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol â strwythur unigryw yn destun trafod rhwng S4C a'r Cynhyrchwyr ac yn amodol ar gytundeb S4C ymlaen llaw.

4. Gweithdrefn Gymeradwyo ar gyfer Ymgyrchoedd Cyfryngau Cymdeithasol

4.1 Rhaid i gynhyrchwyr drafod eu defnydd bwriadedig o'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig ag S4C/rhaglen ar S4C gyda Chomisiynydd Rhaglenni S4C a Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C ar ddechrau proses gomisiynu'r prosiect / Rhaglen S4C.

4.2 Wedi i'r defnydd bwriadedig gael ei drafod a chytuno arno gyda Chomisiynydd Rhaglenni a Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C, rhaid i Gynhyrchwyr lenwi adran 2.3 y Brîff Golygyddol a Busnes sy'n cyfateb i Raglen berthnasol S4C ac amlinellu bwriadau'r Cynhyrchwyr o ran defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig â'r Rhaglen honno.

4.3 Yn sgil llenwi adran 2.3 y Brîff Golygyddol a Busnes, bydd Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C yn trafod y defnydd bwriadedig, yn cynnig arweiniad ac yn cytuno ar gynllun yr ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol gyda'r Cynhyrchwyr. Dyma pryd y deuir i gytundeb ar natur a naws gyffredinol y cynnwys ar y Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch. Lle na fydd S4C a'r Cynhyrchwyr yn gallu cytuno ar strategaeth briodol ar gyfer yr ymgyrch, penderfyniad S4C fydd drech.

4.4 Rhaid i unrhyw newidiadau pellach i strategaeth ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol neu i naws neu natur ei chynnwys gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan Reolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C.

5. Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol – Rheolau Allweddol S4C

5.1 ***Mae Cyfreithiau Arferol yn Berthnasol***

Cofiwch fod pob cyfraith arferol yn berthnasol wrth ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol. Wrth ymgymryd ag ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig ag S4C/Rhaglen S4C, mae'r Cynhyrchwyr yn cytuno i gadw at bob cyfraith berthnasol. Yn arbennig o berthnasol i'r defnydd ar y Cyfryngau Cymdeithasol y mae cyfreithiau'n gysylltiedig ag eiddo deallusol, tor-contract, torri cyfrinachedd, difenwi, diogelu data a chyfreithiau'n ymwneud â dirmyg llys, ond nid yw'r rhestr hon yn derfynol o bell ffordd.

Mae S4C yn disgwyl i'w Chynhyrchwyr gydymffurfio â Pholisi Diogelu Data S4C a Pholisi Preifatrwydd S4C fel y maent i'w gweld ar Wefan Cynhyrchu S4C, yn ogystal â pholisïau'r llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol perthnasol eu hunain ar ddata a phreifatrwydd (fel y bônt yn berthnasol).

Mae S4C yn disgwyl i'w Chynhyrchwyr gymhwyso'r un safonau i'r cynnwys y maent yn ei greu a'i ryddhau ar y Cyfryngau Cymdeithasol ag y gwnânt i'r deunydd y maent yn ei ddarlledu ar y teledu.

5.2 ***Cadw at Delerau ac Amodau Llwyfan y Cyfryngau Cymdeithasol***

Mae gan holl lwyfannau'r Cyfryngau Cymdeithasol eu telerau ac amodau eu hunain hefyd. Trwy ymuno â'r llwyfannau hyn, mae S4C/y Cynhyrchwyr (fel y bo'n berthnasol) yn cytuno i gadw at y telerau hyn. Rhaid felly i Gynhyrchwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â thelerau ac amodau o'r fath wrth ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig ag S4C/â Rhaglen S4C.

Sylwch, mae'r llwyfannau'n diweddaru ac yn diwygio'u telerau ac amodau yn aml, felly dylai Cynhyrchwyr barhau i ymgyfarwyddo â'r fersiwn diweddaraf.

5.3 ***Dilyn Cynllun Cytunedig yr Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol***

Fel rhan o'r weithdrefn gymeradwyo a amlinellir yn adran 4 y polisi hwn, bydd Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C wedi cytuno ar gynllun ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol gyda'r Cynhyrchwyr. Gallai hyn gynnwys cytuno ar gerrig milltir neu amserlenni penodol. Er mwyn sicrhau bod yr ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus, disgwylir i Gynhyrchwyr gydweithredu'n llwyr ag S4C a dilyn cynllun cytunedig yr ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol.

5.4 ***Parchu Brand S4C***

Mae brand S4C yn ased bwysig a gwerthfawr i S4C ac yn un y mae S4C yn falch ac yn amddiffynnol ohono. Wrth ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol, mae Cynhyrchwyr yn cytuno i beidio â gwneud unrhyw beth a allai niweidio brand S4C mewn unrhyw fodd nac yn wir y berthynas sydd gan S4C â'i chynulleidfa, trydydd partïon eraill a/neu sefydliadau eraill. Ni all Cynhyrchwyr ddefnyddio brand na logo S4C heb gael cymeradwyaeth ysgrifenedig S4C ymlaen llaw o dan unrhyw amgylchiadau. Rhaid bod unrhyw ddefnydd wedi'i awdurdodi ar frand/logo S4C gan Gynhyrchydd yn cyd-fynd â Chanllawiau Brand S4C sydd ar gael ar Wefan S4C ar http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/ neu fel y mae S4C yn eu rhoi i'r Cynhyrchydd fel arall.

5.5 ***Cofiwch, mae'n Fforwm Cyhoeddus***

Cofiwch, mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn fforwm cyhoeddus a gall cynnwys a roddir ar lwyfannau'r Cyfryngau Cymdeithasol ledaenu/gael ei rannu'n gyflym. Wrth ychwanegu cynnwys, mae'r cwestiwn canlynol yn un da i'w ystyried - a fyddai Cynhyrchwyr yn hapus i'r un cynnwys ymddangos mewn papur newyddion cenedlaethol neu ddarllediad ar y teledu? Rheol allweddol: ystyriwch cyn clicio.

5.6 ***Priodoldeb i Oed***

Sylwch, mae gan lawer o lwyfannau'r Cyfryngau Cymdeithasol gyfyngiad ar oed o 13 oed a hŷn. Yn hynny o beth, mae S4C yn gofyn i Gynhyrchwyr ystyried priodoldeb cyffredinol defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig â Rhaglen S4C, yn enwedig pan all cynulleidfa darged y Rhaglen honno ar S4C fod o dan y cyfyngiad ar oed sy'n berthnasol i lwyfan perthnasol y Cyfryngau Cymdeithasol. Rhaid i Gynhyrchwyr allu cyfiawnhau pam maent yn ystyried bod defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn

briodol o dan yr amgylchiadau hynny. Nid yw S4C eisiau annog unigolion o dan 13 oed i ymweld â llwyfannau nad ydynt yn ddigon hen i'w defnyddio. Er enghraifft, os caiff cyfrif ei agor mewn perthynas â brand 'Cyw', dylai hwn gael ei dargedu at y rhieni/gwarcheidwaid at ddibenion cynghori ac hyrwyddo yn unig.

5.7 ***Peidiwch ag Ymateb i Gŵynion/Ymholiadau'r Wasg heb Ganiatâd S4C***
Ni ddylai Cynhyrchwyr ymateb yn uniongyrchol i gwynion am S4C na'i rhaglenni neu wasanaethau nac i ymholiadau'r wasg, oni bai bod S4C wedi'u hawdurdodi i wneud hynny. Rhaid i Gynhyrchwyr gyfeirio unrhyw gwynion neu ymholiadau'r wasg at Reolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C ar unwaith ac, os nad yw'r unigolyn hwnnw ar gael, rhaid i Gynhyrchwyr roi gwybod i Wifren Gwylwyr S4C. Dylai Cynhyrchwyr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â Pholisi Cwynion S4C.

6. Safonau Cynnwys ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol

6.1 ***Safonau Ansawdd Cynnwys***

6.1.1 Cyffredinol

Dylai cynnwys sydd wedi'i osod ar unrhyw lwyfan y Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag S4C neu sy'n gysylltiedig â Rhaglen S4C fod yn ddifyr, yn fythol ddiddorol (cyn belled ag y bo'n bosibl), dylai ansawdd y llun fod yn uchel a dylai fod yn gywir yn ieithyddol. Pan ddefnyddir gwasanaeth ffrydio byw, rhaid defnyddio goleuo a microffonau o ansawdd da. Mae'n hanfodol bod Cynhyrchwyr yn sicrhau bod y cysylltiad â'r rhyngrwyd a/neu wi-fi yn gweithredu ar gyflymder rhesymol drwy gydol y prosiect. Os bwriedir defnyddio offer heblaw am offer o ansawdd darlledu, bydd angen cymeradwyaeth ysgrifenedig S4C ymlaen llaw ar gyfer unrhyw offer o'r fath.

6.1.2 Safonau Ofcom

Mae S4C o'r farn bod Côd Ofcom yn feincnod da o ran yr ansawdd a'r safonau sydd i'w bodloni ynghylch y cynnwys a fydd yn cael ei roi ar ei llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol. Dylai'r cynnwys fod yn gywir ac ni ddylai gamarwain y gynulleidfa. Mae cywirdeb a didueddrwydd dyledus yn arbennig o bwysig o safbwynt cynnwys newyddion a materion cyhoeddus. At hynny, ni ddylai deunydd a fyddai'n cael ei ystyried fel arfer yn ddeunydd ar ôl y trothwy gael ei roi ar lwyfan Cyfryngau Cymdeithasol heb rybudd priodol am y cynnwys a heb gymeradwyaeth S4C ymlaen llaw.

Yn ogystal, dylai Cynhyrchwyr dalu sylw dyledus i egwyddorion côd Ofcom sy'n ymdrin â materion fel cydsyniad cyfranwyr, preifatrwydd, niwed a thramgwydd, a diogelu unigolion o dan 18 oed, a chadw at yr egwyddorion hyn.

6.1.3 Iaith

Rhaid i'r holl gynnwys sy'n cael ei osod ar lwyfannau'r Cyfryngau Cymdeithasol gadw at iaith, naws a natur yr ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol a gytunwyd gyda Chomisiynydd Rhaglen S4C a Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C.

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn cyfathrebu â Chynhyrchwyr trwy lwyfan Cyfryngau Cymdeithasol yn Gymraeg ac mae'n briodol i Gynhyrchwyr ymateb i'r unigolyn hwnnw, rhaid i Gynhyrchwyr ymateb yn Gymraeg.

6.2 ***Ailbostio a Hoffi***

Dylai Cynhyrchwyr ystyried yn ofalus cyn hoffi neu ailbostio deunydd trydydd parti ar y Cyfryngau Cymdeithasol, oherwydd gellid dehongli bod S4C trwy hynny'n cymeradwyo barn yr awdur gwreiddiol neu frand, cynnyrch neu wasanaeth.

Os bydd Cynhyrchwyr yn ailbostio/ail-drydar sylw neu ddatganiad difenwol, gallai Cynhyrchwyr a/neu berchennog y cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol orfod amddiffyn achos difenwi cyfreithiol ynghylch yr ailbostio/ail-drydar.

6.3 ***Cliriadau***

6.3.1 Eiddo Deallusol

Pan fyddant yn gosod unrhyw ddeunydd ar lwyfan Cyfryngau Cymdeithasol, er enghraifft lluniau llonydd, clipiau a fideos, **rhaid** i Gynhyrchwyr sicrhau bod y deunydd dan sylw wedi'i glirio **at y defnydd hwn** h.y. bod gan Gynhyrchwyr ganiatâd, trwydded a/neu gydsyniad angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r deunydd ar y llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol penodol. Tynnir sylw yn benodol i ddeunydd a cherddoriaeth trydydd parti.

Mae llawer o wahanol hawliau yn gysylltiedig â **cherddoriaeth**, er enghraifft hawliau yn y recordiad sain, y cyfansoddiad, y perfformiad, yr hawliau cyhoeddi ac ati, y mae'n rhaid clirio pob un ohonynt er mwyn gallu ei defnyddio. Bydd angen negodi penodol ar gyfer cerddoriaeth fasnachol yn enwedig ac mae'n aml yn anodd i'w glirio. Am y rheswm hwn, cynghorir Cynhyrchwyr i sicrhau bod eu cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol yn defnyddio cerddoriaeth gomisiwn neu lyfrgell yn unig.

Hyd yn oed pan fydd rhaglenni wedi'u clirio i'w darlledu neu eu defnyddio ar y we, dylid nodi nad yw hyn o reidrwydd yn golygu bod defnyddio deunydd o'r fath wedi'i glirio'n ddigonol i'w ddefnyddio ar lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol.

Wrth gyhoeddi deunydd ar lwyfan Cyfryngau Cymdeithasol, mae angen i Gynhyrchwyr ystyried p'un a oedd ganddynt yr hawliau i alluogi'r deunydd i fod ar gael yn fyd-eang. Lle nad oes gan Gynhyrchwyr yr hawl i roi deunydd ar gael yn fyd-eang, bydd angen i Gynhyrchwyr rwystro'r deunydd yn ddaearyddol i'r diriogaeth mae'r deunydd wedi'i glirio ar ei chyfer a rhoi gwybod i S4C am yr angen am rwystro deunydd yn ddaearyddol. Lle na all Cynhyrchwyr rwystro'r deunydd yn ddaearyddol, peidiwch â'i roi ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

6.3.2 Hawliau Moesol

Wrth ddefnyddio deunydd trydydd parti, dylai Cynhyrchwyr gydnabod yr awdur lle y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny ac ni ddylent ddiwygio'r cynnwys oni bai bod gan y Cynhyrchwyr ganiatâd datganedig i wneud hynny. Ni ddylai Cynhyrchwyr fyth hawlio perchenogaeth neu awduraeth rhywbeth nad ydynt yn berchen arno.

6.4 ***Cyfyngiadau ar Hyrwyddo Masnachol***

Caiff maes hyrwyddiadau masnachol ei reoleiddio gan yr 'UK Code of Non-Broadcast Advertising and Direct & Promotional Marketing' ("Côd CAP") a bydd gan lawer o lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol eu rheolau a'u rheoliadau eu hunain yn y maes hwn. Ym marn S4C, ni ddylai Cynhyrchwyr osod unrhyw hyrwyddiadau masnachol ar Gyfryngau Cymdeithasol heb gael caniatâd ymlaen llaw gan Reolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C.

Ni chaiff Cynhyrchwyr lunio cytundebau nawdd gydag unrhyw drydydd parti mewn perthynas â llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag S4C a/neu Raglenni S4C heb gymeradwyaeth ysgrifenedig S4C ymlaen llaw.

Ni chaiff Cynhyrchwyr werthu cynhyrchion na gwasanaethau ar lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag S4C neu Raglenni S4C oni bai bod Cynhyrchwyr wedi cael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan S4C i wneud hynny.

Rhaid i Gynhyrchwyr sicrhau cydymffurfiaeth â Chôd CAP. Côd CAP yw'r llyfr rheolau ar gyfer hysbysebion nad ydynt yn cael eu darlledu, hyrwyddo gwerthiannau a gohebiaeth marchnata uniongyrchol (gohebiaeth marchnata).

6.5 ***Cystadlaethau***

Os bydd Cynhyrchwyr yn dymuno cynnal cystadleuaeth ar y Cyfryngau Cymdeithasol, rhaid i Gynhyrchwyr gael cymeradwyaeth S4C ymlaen llaw i wneud hynny. Gweler Canllawiau Rhyngweithio a Chystadlu S4C ar wefan S4C http://www.s4c.cymru/media/media_assets/2017.02.13_Canllawiau_Rhyngweithio.pdf i gael rhagor o wybodaeth am hyrwyddiadau gwobrau.

Disgwylir i unrhyw gystadleuaeth gael ei chynnal yn deg ac yn dryloyw, yn unol â phob cyfraith a chanllaw perthnasol. Mae Côd CAP yn rheoleiddio hyrwyddiadau gwobrau a gofynnir i Gynhyrchwyr gyfeirio at y côd wrth gynnal cystadleuaeth a chadw ato.

Rhaid i Gynhyrchwyr gyfleu pob amod arwyddocaol perthnasol i gystadleuwyr cyn iddynt gymryd rhan mewn hyrwyddiad gwobrau lle y gallai'r wybodaeth honno effeithio ar benderfyniad unigolyn i gymryd rhan yn yr hyrwyddiad gwobrau neu lle y byddai hepgor gwybodaeth o'r fath yn debygol o gamarwain y cyhoedd. Mae Côd CAP yn rhoi arweiniad ar beth sy'n cael ei ystyried yn amod arwyddocaol.

Rhaid i Gynhyrchwyr sicrhau bod telerau ac amodau llawn yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth ar gael i gystadleuwyr eu gweld cyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Rhaid i wobrau fod yn addas i oedran y rhai sy'n gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Rhaid bod yn arbennig o ofalus mewn perthynas â gwobrau pan fydd pobl o dan 18 oed yn gallu cymryd rhan. Er enghraifft, ni chaiff Cynhyrchwyr gynnig alcohol fel gwobr ar gyfer cystadleuaeth pan ganiateir i unigolion o dan 18 oed gystadlu.

Rhaid i Gynhyrchwyr roi ystyriaeth briodol i faterion fel diogelu data a chaniatâd rhieni wrth gynllunio a chynnal cystadleuaeth.

Yn ogystal, gallai fod rheolau penodol yn nhelerau ac amodau llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol ynghylch cynnal cystadlaethau drwy eu llwyfannau a dylid cadw at y rheolau hyn.

6.6 ***Etholiadau***

Yn ystod cyfnodau etholiadau, mae dyletswydd didueddrwydd dyledus ar S4C o dan Adran 6 Côd OFCOM. Yn ystod y cyfnod hwn, wrth ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig ag S4C/Rhaglenni S4C, dylai Cynhyrchwyr fwrw golwg ar y canllawiau ynghylch etholiadau ar wefan S4C a chadw at y canllawiau hynny yn ogystal â'r polisi hwn. Mae'r holl ganllawiau ar gyfer rhaglenni teledu yn berthnasol yn yr un modd i bob deunydd am etholiadau ar y we a'r Cyfryngau Cymdeithasol.

Ni ddylai Wynebau a Phersonau Golygyddol (fel y'u diffinnir yng Nghanllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni) beryglu didueddrwydd nac uniondeb S4C trwy fynegi barn am faterion gwleidyddol ar wefannau neu gyfrifon personol ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

Yn unol â Chanllawiau S4C ar Gydymffurfiaeth Rhaglenni, cofiwch fod angen i Wynebau a Phersonau Golygyddol roi gwybod i S4C cyn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol. Gallai sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod etholiadau neu isetholiadau gael eu hystyried yn weithgarwch o'r fath.

6.7 ***Cynnwys gwaharddedig***

Caiff y cynnwys canlynol ei wahardd ar unrhyw lwyfan y Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag S4C neu Raglen S4C:

6.7.1 *Materion cyfreithiol sy'n mynd rhagddynt*
Ni ddylai Cynhyrchwyr wneud sylw ar unrhyw fater cyfreithiol sy'n mynd rhagddo, y mae'r Cynhyrchwyr neu S4C yn barti iddo. Rhaid ystyried adrodd newyddion ar unrhyw faterion cyfreithiol neu ymchwiliadau troseddol sy'n mynd rhagddynt yn ofalus a'i gyflawni yn unol â deddfau dirmyg llys a difenwi. Cynghorir Cynhyrchwyr i geisio cyngor cyfreithiol yn hyn o beth. Ni ddylai Cynhyrchwyr wneud sylw ar faterion y mae cyfyngiadau ar adrodd ar waith yn gysylltiedig â nhw e.e. gwaharddebau. Ni ddylai Cynhyrchwyr wneud sylw ar unrhyw faterion cyhoeddus sy'n mynd rhagddynt, y mae S4C yn gysylltiedig â nhw.

6.7.2 *Gwybodaeth gyfrinachol*
Ni ddylai Cynhyrchwyr bostio unrhyw wybodaeth yn ymwneud ag S4C neu drydydd parti nad yw'n wybodaeth gyhoeddus. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddatganiadau, gwybodaeth am gomisiynu neu ffigurau gwylio. Dylid bob amser cael caniatâd S4C cyn cyhoeddi unrhyw wybodaeth am amserlenni.

6.7.3 *Difenwi*
Ni ddylai Cynhyrchwyr ailadrodd, postio, ailbostio, rhannu na hoffi honiadau na straeon nad yw Cynhyrchwyr yn gwybod eu bod yn wir, oherwydd trwy wneud hynny, gallai Cynhyrchwyr dorri cyfreithiau difenwi. Gall awgrymiadau ac ensyniadau gael eu hystyried yn ddifenwol. O ran ailadrodd geiriau difenwol rhywun arall, gallai'r unigolyn sy'n ailbostio'r sylw difenwol barhau i fod yn atebol yn achos camau cyfreithiol.

6.7.4 *Datganiadau sarhaus*
Ni ddylai Cynhyrchwyr wneud unrhyw sylwadau yn gysylltiedig â rhywedd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd, hil, diwylliant, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd/mamolaeth ac ati.

6.7.5 *Cynnwys wedi'i anelu at blant o dan 13 oed*
Oherwydd bod y rhan fwyaf o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol yn caniatáu i blant 13 oed a hŷn yn unig agor cyfrif, ni ddylai Cynhyrchwyr bostio unrhyw beth sydd wedi'i anelu'n uniongyrchol at blant o dan 13 oed, oherwydd gallai hyn eu hannog i ddefnyddio'r llwyfannau hyn. Dylai unrhyw wybodaeth sy'n cael ei phostio yn gysylltiedig â rhaglenni plant gael ei thargedu at rieni/gwarcheidwaid at ddibenion cynghori ac hyrwyddo yn unig.

7. Cymedroli

7.1 Safiad cyffredinol S4C yw na fydd cynnwys wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddwyr ar lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol S4C yn cael ei gymedroli a bydd S4C yn tynnu deunydd amhriodol oddi yno pan gaiff wybod am hynny yn unig.

7.2 Os bydd Cynhyrchwyr wedi sefydlu Cyfrifon annibynnol ar Gyfryngau Cymdeithasol yn gysylltiedig ag S4C/â Rhaglen S4C, mae'n ofynnol, lle bynnag y bo'n bosibl, i Gynhyrchwyr gynnwys hysbysiad 'Tynnu Cynnwys i Ffwrdd' ar hafan dudalen y llwyfan, fel y'i hamlinellir isod:

7.3 "Polisi Tynnu Cynnwys i Ffwrdd: Mae'n bleser gennym glywed oddi wrthoch, ond byddwch yn gyfeillgar. Rydym yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw gynnwys sy'n ddifenwol, sarhaus, rhegfeydd, sbam neu unrhyw gynnwys arall sy'n amhriodol yn ein barn ni."

8. Diogelu Plant

8.1 Petai Cynhyrchwyr yn dod ar draws cynnwys ar gyfrif Cyfryngau Cymdeithasol sy'n codi pryderon am les plentyn, cyfeirir Cynhyrchwyr at y gweithdrefnau adrodd ym Mholisi Amddiffyn Plant S4C a rhaid iddynt ddilyn y rhain. Hefyd, gofynnir i Gynhyrchwyr lenwi'r Ffurflen Adrodd ynghylch y Cyfryngau Cymdeithasol yn Atodiad 1 a'i dychwelyd at Reolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C.

9. Diogelwch

9.1 Rhaid i Gynhyrchwyr gadw cofnod o bob cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol sydd yn annibynnol o gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol S4C a phwy sy'n gallu mynd at y cyfrifon hynny. Caiff y rhain eu trafod gyda Chynhyrchwyr pan gytunir ar strwythur yr ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol gyda Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C.

9.2 Ystyrir bod cyfrineiriau ar gyfer cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol yn wybodaeth gyfrinachol a rhaid i Gynhyrchwyr trin gwybodaeth o'r fath yn ofalus a'i chadw'n ddiogel. Rhaid i Gynhyrchwyr rannu cyfrineiriau gyda chyn lleied o bobl â phosibl. Pan fydd pobl sy'n gwybod am gyfrineiriau presennol yn gadael tîm, rhaid i Gynhyrchwyr newid y cyfrineiriau hynny ar unwaith.

9.3 Os daw Cynhyrchwyr i wybod bod cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag S4C neu Raglen S4C wedi'i hacio neu fod rhywun heb awdurdod wedi mynd ato, rhaid i Gynhyrchwyr gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu'r cyfrif ar unwaith, dileu unrhyw ddeunydd sarhaus a gyhoeddwyd a rhoi gwybod i Reolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C. Wrth drafod strwythur eich ymgyrch yn y Cyfryngau Cymdeithasol gyda Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C, rhaid bod Cynhyrchwyr wedi sefydlu cynlluniau i ddelio â digwyddiadau posibl fel hacio cyfrif.

10. Cau Cyfrifon

10.1 Pan gaiff cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol eu hagor gan Gynhyrchwyr sydd yn annibynnol o gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol S4C, ni ddylai Cynhyrchwyr adael cyfrifon yn segur pan fydd ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol wedi dod i ben. Wrth drafod strwythur ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol â Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C, dylai Cynhyrchwyr hefyd drafod a chytuno ar strategaeth ar gyfer cau'r cyfrifon os bydd angen.

10.2 Wrth gau cyfrif annibynnol Cyfryngau Cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag S4C, dylai Cynhyrchwyr bostio neges yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr y bydd y cyfrif yn cau cyn hir a rhoi'r dyddiad cau. Os oes cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol eraill gan S4C a allai fod o ddiddordeb i ddefnyddwyr, sydd â chynnwys tebyg, gall Cynhyrchwyr bostio neges yn awgrymu y gallai dilyn y cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol eraill fod o ddiddordeb. Mae'n rhaid cadw at y dull o gymedroli'r cyfrif Cyfryngau Cymdeithasol, y cytunodd y Cynhyrchwyr arno gyda Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C, hyd nes bod y cyfrif yn cael ei gau. Ar y dyddiad cau a hysbysebwyd, rhaid i Gynhyrchwyr gau'r cyfrif.

11. Cyfrifon Personol

11.1 Canllawiau

Nid yw S4C yn awyddus i gyfyngu ar ddefnydd personol ar gyfryngau cymdeithasol gan bobl sy'n gweithio ar raglenni S4C. Ond wrth ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol, boed mewn rhinwedd broffesiynol neu bersonol/cymdeithasol, disgwylir i unigolion sy'n gweithio ar raglenni S4C ymatal rhag gwneud datganiadau sy'n niweidio delwedd gyhoeddus S4C, ei rhaglenni neu ei gwasanaethau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i wynebau'r sianel, gan gynnwys cyflwynwyr, actorion, gohebwyr, cyfwelwyr a sylwebwyr sy'n ymddangos ar S4C yn rheolaidd.

Argymhellir y pwyntiau arfer da canlynol er mwyn cynnig amddiffyniad fel nad yw'r unigolion hynny sy'n gweithio ar raglenni S4C yn peryglu enw da S4C trwy eu gweithrediadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Pan fydd y cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn un personol:

- Dylai'r unigolyn osgoi rhoi'r argraff ei fod yn cyfathrebu ar ran S4C. Er enghraifft, ni ddylai S4C gael ei gynnwys yn yr enw defnyddiwr neu enw'r cyfrif, e.e. byddai @johnjones yn iawn ond NI fyddai @johnjonesS4C yn dderbyniol;

- Dylai'r unigolyn osgoi gwneud sylwadau sy'n anffafriol neu'n negyddol tuag at y rhaglenni a/neu wasanaethau y mae'n ymwneud â nhw ar ran S4C.

11.2 Arfer Da Yn Gyffredinol

Yn gyffredinol, wrth ddefnyddio cyfrifon personol:

- Dylai'r unigolyn osgoi dweud unrhyw beth ar y cyfryngau cymdeithasol na fyddai'n barod i'w ddatgan yn gyhoeddus ar y teledu neu mewn papur newyddion.

- Ni ddylai'r unigolyn wneud unrhyw sylwadau sy'n hiliol, sy'n achosi aflonyddwch neu yn gwahaniaethu neu'n enllibus, yn gyfystyr â bwlio neu yn achosi tramgwydd ac ati.

- Ni ddylai'r unigolyn rannu unrhyw wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth bersonol unrhyw unigolyn na manylion cyfrinachol am S4C na'r rhaglen ar gyfer S4C na'i fusnes ei hun.

- Ni ddylai'r unigolyn dorri unrhyw hawlfraint trydydd parti, er enghraifft wrth gopïo ffotograffau, cerddoriaeth neu fideo o'r rhyngrwyd heb ganiatâd.

- Ni ddylai'r unigolyn gamarwain y cyhoedd, gweithredu'n anghyfreithlon na hyrwyddo unrhyw weithred anghyfreithlon.

- Ni ddylai'r unigolyn ymddwyn mewn ffordd ymosodol tuag at unigolion, yn enwedig wrth drafod cynnwys a/neu weithgareddau S4C. Dylai'r unigolyn ymateb yn bwyllog i unrhyw feirniadaeth.

- Dylai'r unigolyn ymgynghori ag S4C cyn ymateb i unrhyw gŵyn am S4C neu raglen neu wasanaeth S4C.

- Os bydd yr unigolyn wedi trydar neu wneud sylw ac yna nid yw'n siŵr p'un a oedd hynny'n briodol ac mae'n amau y gallai effeithio ar S4C, dylid dwyn hyn i sylw'i reolwr cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os yw'r sylw wedi'i ddileu. Y rheolwr sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a oes angen dwyn yr amgylchiadau i sylw'r Adran Gyfathrebiadau S4C.

- Yn syml, os nad yw'r unigolyn yn siŵr a yw'r hun mae ar fin ei drydar neu ei gyhoeddi yn addas, ni ddylai ei gyhoeddi.

12. Cynnwys S4C – Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol a Chyfeirio Atynt

Cyffredinol

12.1 Rhaid i Gynhyrchwyr bob amser ofyn am gymeradwyaeth S4C cyn cyfeirio at Gyfryngau Cymdeithasol mewn cyfryngau eraill (e.e. mewn darllediadau, cynnwys ar-lein, deunydd print).

12.2 Wrth gynnwys cyfeiriadau at y Cyfryngau Cymdeithasol mewn cyfryngau eraill, dylai Cynhyrchwyr gyfeirio at delerau ac amodau'r llwyfan perthnasol ymlaen llaw. Gall fod angen cael caniatâd y llwyfan ar gyfer defnyddio'i nodau masnach, logos neu frand a gall fod canllawiau caeth ar eu defnydd.

Cyfeiriadau mewn Darllediadau

12.3 Wrth ystyried cynnwys cyfeiriadau at lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol mewn deunydd i'w ddarlledu ar y teledu, dylai Cynhyrchwyr roi ystyriaeth benodol i Reol 9 Côd Ofcom ac arweiniad Ofcom ar Reol 9. Caiff yr arweiniad perthnasol ei grynhoi isod, ond dylai Cynhyrchwyr bob amser droi at wybodaeth gyfredol fel y'i cyhoeddir ar wefan Ofcom.

12.4 Dylid cofio bod llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol yn safleoedd masnachol. Mae Rheol 9.4 Côd Ofcom yn datgan na ddylid hyrwyddo cynhyrchion, gwasanaethau a nodau masnach mewn rhaglenni – mae hyn yn cynnwys llwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol. Yn gyffredinol, felly, ni ddylid cyfeirio at lwyfannau Cyfryngau Cymdeithasol gan ddefnyddio iaith ffafriol neu ganmoladwy ac ni ddylid trafod unrhyw brisiau nac argaeledd.

12.5 Fodd bynnag, mae rhai amgylchiadau sy'n cyfiawnhau rhoi mwy o wybodaeth am gynhyrchion neu wasanaethau o fewn rhaglenni. I weld eithriadau penodol, cyfyngedig i Reol 9.4, gweler y rheolau isod ar ddeunydd yn gysylltiedig â rhaglen.

12.6 Mae Rheol 9.5 Côd Ofcom yn datgan na ellir rhoi amlygrwydd gormodol mewn rhaglenni i gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach (gan gynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol). Gall amlygrwydd gormodol ddeillio o:

- bresenoldeb Cyfryngau Cymdeithasol, neu gyfeirio atynt, lle nad oes cyfiawnhad golygyddol; neu
- y modd y mae'r Cyfryngau Cymdeithasol yn ymddangos mewn rhaglenni neu'r modd y cyfeirir atynt yn y rhaglenni.

12.7 Mae'n rhaid bod cyfiawnhad golygyddol dros gynnwys cyfeiriadau at Gyfryngau Cymdeithasol mewn rhaglenni.

12.8 Mae Ofcom yn caniatáu defnyddio cyfeiriadau at Gyfryngau Cymdeithasol i ganiatáu cyfathrebu â chynulleidfa'r rhaglen, yn amodol ar yr ystyriaethau canlynol:

- ni chodir tâl ar wylwyr am ddefnyddio'r safle Cyfryngau Cymdeithasol;

- nid oes cytundeb masnachol yn ei le i S4C/neu'r cwmni cynhyrchu wneud y cyfeiriad;

- mae manylion dulliau cyffredinol eraill o gyfathrebu, fel e-bost, wedi'u darparu hefyd;

- mae'n bosibl cyfiawnhau yn olygyddol pa mor aml y cyfeirir at y llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol. Dylid gofalu rhag rhoi gormod o amlygrwydd i'r Cyfryngau Cymdeithasol;

- ni ddylid rhoi dim mwy nag enw'r llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol a'r manylion cysylltu gofynnol lleiaf eraill. Ni ddylid trafod y llwyfan Cyfryngau Cymdeithasol y tu hwnt i wybodaeth syml am sut i'w ddefnyddio i gysylltu â'r Cynhyrchydd /S4C.

Deunydd yn gysylltiedig â rhaglen

12.9 Fel y nodir uchod, fel eithriad i Reol 9.4, gall deunydd yn gysylltiedig â rhaglen gael ei hyrwyddo mewn rhaglenni ar yr amod y caiff ei hyrwyddo yn ystod neu o gwmpas y

rhaglen y mae'n deillio'n uniongyrchol ohoni a lle y gellir cyfiawnhau hynny'n olygyddol yn unig.

12.10 Mae "deillio'n uniongyrchol o raglen benodol" yn golygu bod y cynnyrch neu'r gwasanaeth (e.e. y dudalen Cyfryngau Cymdeithasol) wedi 'deillio'n uniongyrchol' i raddau helaeth o'r rhaglen benodol. Mae'n annhebygol felly y byddai tudalen Cyfryngau Cymdeithasol a fodolai cyn y rhaglen yn bodloni'r diffiniad hwn.

12.11 Hefyd, mae'n rhaid mai bwriad y deunydd yn gysylltiedig â rhaglen (e.e. y dudalen Cyfryngau Cymdeithasol) yw caniatáu i wylwyr elwa'n llawn o'r rhaglen benodol honno neu ryngweithio â hi.

12.12 Wrth hyrwyddo tudalen Cyfryngau Cymdeithasol fel deunydd yn gysylltiedig â rhaglen, rhaid i Gynhyrchwyr ystyried y rheolau yn Adran Un (Diogelu Pobl Ifanc o dan 18) ac Adran Dau (Niwed a Sarhad) Côd Ofcom. Dylid cymryd gofal yn arbennig pan fydd hysbysebu'r cynnyrch neu'r gwasanaeth trwy ddarlledu wedi'i wahardd neu'i gyfyngu. Er enghraifft, mae hyrwyddo tudalen Cyfryngau Cymdeithasol sy'n deillio o raglen sy'n denu cynulleidfa o blant o dan 13 oed yn debygol o fod yn annerbyniol.

12.13 Fel arfer, dylai hyrwyddiad deunydd yn gysylltiedig â rhaglen neu o gwmpas rhaglen i blant fod yn canolbwyntio ar wybodaeth gyffredinol yn unig, er enghraifft gwybodaeth bod y dudalen Cyfryngau Cymdeithasol ar gael. Fel arfer, ni ddylai fod yn briodol i hyrwyddiad o'r fath wahodd ymateb uniongyrchol gan wylwyr.

12.14 Er nad oes cyfyngiad penodol ar faint o ddeunydd yn gysylltiedig â rhaglen y gall rhaglen ei chynnwys, penderfynodd Ofcom fod y canlynol yn annerbyniol: tri dilyniant hyrwyddo a ddarlledwyd 5 gwaith yn gyfan gwbl ystod rhaglen 2 awr, gyda phob dilyniant yn para tua 30 eiliad. O'u hystyried ynghyd, penderfynodd Ofcom fod y ffocws mynych ar y deunydd yn gysylltiedig â rhaglen yn yr enghraifft hon yn rhy amlwg.

12.15 Mae'n eglur, felly, bod ymagwedd Ofcom at amlygrwydd gormodol yn llym. Mae'n rhaid bod unrhyw gyfeiriadau at y Cyfryngau Cymdeithasol ar yr awyr, boed mewn rhaglenni neu ddilyniant, yn fyr iawn a pheidio â bod yn ailadroddus.

13. Manylion Cyswllt

13.1 *Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol S4C*
Alun Jones
Alun.Jones@S4C.Cymru
03305 880 457

ATODIAD 1

FFURFLEN ADRODD CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

(Gweler drosodd)

Ffurflen Adrodd Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r ffurflen adrodd hon ynghylch y cyfryngau cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr â 'Pholisi Amddiffyn Plant S4C' (http://www.s4c.co.uk/media/media_assets/2018_Polisi-Amddiffyn-Plant-S4C.pdf) trwy hwnnw y dylid dilyn y weithdrefn ganlynol:

CAM UN	Rhoi gwybod i Berson Dynodedig S4C (Elin Morris ar 03305 880 402) neu ei dirprwy fel y'i henwebir o bryd i'w gilydd. Os oes angen hysbysu'r tu allan i oriau busnes, ffoniwch Linell Gymorth yr NSPCC (ar 08088 005000).
CAM DAU	Llenwch y ffurflen hon gan roi holl fanylion perthnasol y camau a gymerwyd/unrhyw atgyfeiriadau.
CAM TRI	Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at Berson Dynodedig S4C.

DYDDIAD .....

LLWYFAN .....

- e.e. Twitter, Facebook

.....

CEFNDIR

- Enw/manylion y defnyddiwr sy'n gwneud y sylw
- Pryd ddaethoch i wybod am y sylw/yr ymddygiad mae angen rhoi gwybod amdano
- Rhesymau dros gredu bod y plentyn mewn trallod neu'n wynebu risg niwed
- Os oes modd, cynhwyswch gopi o'r sylw

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

CAMAU A GYMERWYD

- Ers dod i wybod am y sefyllfa, pa gamau rydych chi wedi'u cymryd

.....

.....

.....

.....

.....

MANYLION CYSWLLT

.....

- Enw a rhif ffôn cyswllt

.....

- Gall fod angen i ni drafod unrhyw beth rydych chi wedi'i gynnwys ar y ffurflen hon

.....